O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 345 (Cy. 57)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Lôn Gerbydau Tua'r Dwyrain yng Nghyffordd 36 (Cyfnewidfa Warren), Sir y Fflint) (Gwaharddiad Dros Dro ar Gerbydau a Therfyn Cyflymder 40 mya) 2012

Wedi'i wneud	*10 Chwefror 2012*
Yn dod i rym	*20 Chwefror 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig, neu ei wahardd, ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith sy'n cael ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)**, a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 20 Chwefror 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Lôn Gerbydau Tua'r Dwyrain yng Nghyffordd 36 (Cyfnewidfa Warren), Sir y Fflint) (Gwaharddiad Dros Dro ar Gerbydau a Therfyn Cyflymder 40 mya) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n achosi'r Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 09:30 o'r gloch ar 20 Chwefror 2012 ac a ddaw i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro'n cael eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn o'r Gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn o'r lôn gerbydau tua'r dwyrain ar gefnffordd yr A55 yng Nghyffordd 36 (Cyfnewidfa Warren), ger Brychdyn yn Sir y Fflint sy'n ymestyn o bwynt 1500 metr i'r gorllewin o ganolbwynt trosbont